**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/MD/3154/14

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA

6 Tachwedd 2014

Annwyl David

Rwy'n cyfeirio at eich llythyr dyddiedig 25 Hydref oedd yn amlinellu'r materion allweddol a nodwyd gennych yn ystod eich gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2015-16. Rydych yn gwneud sylw ar nifer o faterion pwysig ac wedi gofyn am wybodaeth bellach mewn nifer o achosion.

Rwy'n nodi hefyd eich bod yn atodi llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n cyfeirio at y materion y mae’r pwyllgor wedi'u codi; rydych chi hefyd yn gofyn am ymatebion i'r cwestiynau y mae'n eu holi.

Rwy'n ddigon bodlon cynnig yr wybodaeth rydych chi'n gofyn amdani ac wedi ymateb isod i gwestiynau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

## 1. Dyraniad refeniw ychwanegol ar gyfer gwasanaethau'r GIG yn 2015-16

*Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd yn monitro ac yn sicrhau bod yr arian refeniw ychwanegol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16 yn arwain at ddiwygio gwasanaethau'n ystyrlon a chanlyniadau cadarnhaol i gleifion, yn hytrach na chael ei ddefnyddio gan fyrddau iechyd i fynd i'r afael â diffygion ar ddiwedd blwyddyn yn deillio o fodelau gofal heb eu newid.*

Fel y pwysleisir yn adroddiad Nuffield, mae angen mwyafrif y cyllid newydd yn bennaf i gynnal y lefelau gwasanaeth presennol a pharhau i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel. Fodd bynnag, cydnabyddir na allwn barhau i ddarparu'r gwasanaethau yn yr un ffordd ag yn y gorffennol, hyd yn oed gyda chyllid ychwanegol. Bydd angen i ni fod yn fwy arloesol a pharhau i nodi modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau.

Bydd y broses gynllunio yn allweddol o ran nodi sut byddwn yn gwneud y newid hwn, a bydd y cyllid yn cael ei dargedu i ddiwallu'r heriau a amlinellir yn y cynlluniau gwasanaeth tymor canolig integredig. Drwy barhau i ddatblygu cynlluniau gwasanaethau integredig y GIG, byddwn yn parhau i greu'r modelau gwasanaeth cywir a'r canlyniadau cywir i gleifion.

Rydym yn monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau integredig ac yn goruchwylio perfformiad y GIG drwy nifer o ffyrdd, gan gynnwys: cyfarfodydd misol y Prif Weithredwr, cyfarfod ansawdd a darparu misol, cyflwyniad manwl ar y ffurflenni monitro ariannol misol, cyd-gyfarfodydd y tîm gweithredol etc. Mae gennym hefyd broses gydnabyddedig o uwchgyfeirio ac ymyrraeth a ddatblygwyd ar y cyd gydag AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhannu ac adrodd ar berfformiad a chynnydd sefydliadau'r GIG ymysg ei gilydd.

## 2. Fformiwla dyrannu adnoddau a dosbarthu cyllid ychwanegol.

*Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion ar ddosbarthiad y cyllid ychwanegol hwn ar ôl i hynny gael ei wneud, gan gynnwys gwybodaeth am sut y mae cynlluniau tymor canolig integredig byrddau iechyd wedi dylanwadu ar benderfyniadau.*

Byddaf yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ar gyfanswm y dyraniad refeniw i bob bwrdd iechyd ar gyfer 2015-16 wedi i'r penderfyniadau terfynol gael eu gwneud.

## 3. Y Gronfa Gofal Canolraddol

*Yn y tymor byr, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog ynghylch sut y bydd yn monitro ac yn sicrhau y bydd y camau cadarnhaol a gymerwyd o ganlyniad i fodolaeth y Gronfa yn parhau ar ôl i'w chyllid ddod i ben ar ddiwedd 2014-15.*

Er mai am flwyddyn yr ariannwyd y Gronfa Gofal Canolraddol i ddechrau, rydym yn gobeithio adeiladu ar rai o'r llwyddiannau y mae wedi helpu i'w datblygu, naill ai drwy brif-ffrydio rhywfaint o'r gwaith hwn yn y ffocws ar ofal sylfaenol a'r gymuned, drwy'r cydweithio a'r cydweithredu rydym yn eu datblygu ac yn eu hariannu drwy'r gwaith cynllunio tair blynedd, neu drwy ad-drefnu elfen o'r adnoddau refeniw ychwanegol sy'n cael eu darparu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn 2015/16. Rydym yn ystyried sut gellir defnyddio'r cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd i ddatblygu a phrif-ffrydio effeithiau buddiol y Gronfa.

Ar ben hyn, mae £10 miliwn ychwanegol ar gael ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, a bydd modd defnyddio rhywfaint o'r arian hwn i fuddsoddi mewn gwasanaethau a'u diwygio i ganolbwyntio ar atal problemau ac ymyrraeth gynnar, sy'n elfennau allweddol o'r Gronfa Gofal Canolraddol.

Mewn achosion lle gallai fod angen cyfalaf ychwanegol, rydym hefyd yn adolygu'n blaenoriaethau cyfalaf i ddatblygu mwy o fentrau cymunedol ac yn edrych ar ffyrdd o ariannu hyn drwy ddulliau cyllido arloesol ar sail partneriaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector.

O ran monitro, mae gofyn i bob rhanbarth lunio bwletin chwarterol ffurfiol ynghylch y gwaith sy'n cael ei ddatblygu, ac mae swyddogion hefyd yn cwrdd â'r rhanbarthau bob chwarter i adolygu cynnydd. Mae hefyd yn ofynnol i bob rhanbarth wneud gwerthusiad ffurfiol. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi'r arfer da a'r ymyriadau mwyaf effeithiol, a'r buddion y dylid eu cynnal a'u prif-ffrydio yn yr hirdymor.

## 4. Cyfalaf

*Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y gostyngiad cyffredinol mewn cyllid cyfalaf a byddai'n croesawu gwybodaeth bellach am sut y bydd yr ymarfer blaenoriaethu cyfalaf newydd yn gweithio'n ymarferol.*

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu pryder y Pwyllgor ynghylch y gostyngiad yn y cyllid cyfalaf ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r ymarfer blaenoriaethu cyfalaf yn fy adran wedi canolbwyntio ar nodi cynlluniau cyfalaf a fydd yn bodloni ac yn cyflawni amcanion ynghylch buddsoddi i gefnogi newid gwasanaethau â buddion amlwg, gan gynnwys arbedion refeniw a darparu gwasanaethau cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu panel o arbenigwyr i ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae'r panel yn cynnwys uwch-gynrychiolwyr o bob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys arweinwyr meddygol, gweithlu, cynllunio, cyllid a thechnoleg gwybodaeth.

Gofynnwyd i'r byrddau iechyd lleol flaenoriaethu a chyflwyno cynigion i'r panel, ar sail meini prawf buddsoddi allweddol, yn gysylltiedig ag enillion iechyd, fforddiadwyedd, cynaliadwyedd clinigol a sgiliau, tegwch a gwerth am arian. Cafodd yr holl gynlluniau yn y flaenraglen o 2015-16 ymlaen eu cynnwys, gan gynnwys y rheini sydd eisoes wedi cychwyn y broses achos busnes ond lle nad yw'r achos busnes llawn wedi'i gymeradwyo eto.

Mae'r panel arbenigwyr wrthi'n gwerthuso ac yn blaenoriaethu ymhellach y cynigion sydd wedi dod i law. Fel rhan o'i gylch gwaith, mae'n ystyried fforddiadwyedd a'r effeithiau posibl ar y flaenraglen waith sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd ar y gweill. Bydd canfyddiadau ac argymhellion y grŵp yn cael eu cyflwyno i mi maes o law.

## 5. Gwasanaethau iechyd meddwl a'r cyllid a glustnodir

*Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch dyrannu arian i'r maes iechyd meddwl gan ei bod yn ymddangos fod gwybodaeth wedi cael ei chyflwyno mewn fformat gwahanol yn nogfennau'r Gyllideb Ddrafft eleni. Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch a oedd y dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl wedi cynyddu yn unol â chwyddiant ers ei sefydlu.*

Mae'r papur tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cyfeirio at £529m sy'n ymwneud â phrif elfen y cyllid iechyd meddwl sydd wedi'i nodi yn y dyraniad sydd wedi'i warchod a'i glustnodi ar gyfer y GIG yn 2014-15. Yn ogystal â hyn, ceir elfennau yn y dyraniadau presgripsiynu a gwasanaethau meddygol cyffredinol sy'n rhan o'r cyfanswm cyffredinol o arian o £587m sydd wedi'i warchod ar gyfer iechyd meddwl.

Mae’r swm sydd wedi’i neilltuo ar gyfer iechyd meddwl yn lefel na ddylai gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl craidd fynd islaw iddi. Mae’r byrddau iechyd lleol yn gyson wedi mynd y tu hwnt i’r lefel o wariant sydd wedi’i neilltuo wrth i’r galw am wasanaethau iechyd meddwl gynyddu. Ers 2010-11, mae cyllid wedi cael ei ychwanegu at y swm sydd wedi’i neilltuo ar gyfer meysydd penodol fel y Mesur Iechyd Meddwl, CAMHS ac eiriolaeth.

Mae lefel y swm sydd wedi’i neilltuo yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ac ystyrir ei haddasu ym mhroses dyrannu cyllideb y GIG 2015-16.

Er eglurder, mae'r papur tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hefyd yn cyfeirio at wariant o £618m ar iechyd meddwl. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y siart Cyllidebu Rhaglenni mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2012-13. Er gwybodaeth i'r Pwyllgor, mae'r ffigur hwn yn ddadansoddiad ôl-weithredol o'r costau cyfeirio sydd wedi'u

dyrannu i Gategori'r Rhaglen Iechyd Meddwl yn y Gyllideb. Byddai hyn yn cynnwys pob un o'r canlynol:

- Y cyllid sydd wedi'i glustnodi a nodir uchod;
- Unrhyw gyllid pellach a ddosberthir gan bob bwrdd iechyd o'u cyllideb ddewisol;
- Gorbenion sy'n cael eu dyrannu ar draws yr arbenigeddau a mannau darparu fel rhan o'r broses y mae'r byrddau iechyd yn mynd trwyddi wrth lunio eu costau cyfeirio blynyddol, sydd wedyn yn cael eu mapio i'w ffurflenni cyllidebu rhaglenni.

## 6. Ymgyfreitha a'r Gronfa Risg

*Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael dadansoddiad pellach yn ymwneud â maint a lefel y setliadau yn ystod y flwyddyn a wnaed yn erbyn y gronfa risg yn y blynyddoedd diwethaf, fel y gofynnwyd yn ystod y cyfarfod.*

Yn ogystal â chyflwyno'r dadansoddiad pellach y mae'r Pwyllgor wedi gofyn amdano, gallai hefyd fod yn ddefnyddio i esbonio'n gryno yr arferion cyfrifyddu sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r Gronfa Risg.

Mae Cronfa Risg Cymru yn digolledu colledion o fwy na £25,000 gan gyrff GIG Cymru yn sgil esgeulustod a hawliadau cymwys eraill, ac fe'i hariennir drwy gyllideb gofal iechyd GIG Cymru. Mae'r cyllid blynyddol ar gyfer Cronfa Risg Cymru yn cynnwys:

- Adnodd Gwariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer trosglwyddiadau ar y fantolen mewn perthynas â rhwymedigaethau a setliadau'r dyfodol.

- Adnodd Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw ar gyfer taliadau a wneir mewn blwyddyn ariannol i ddigolledu Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG am setliadau.

Yn unol â gofynion cyfrifon statudol, cedwir darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau Cronfa Risg Cymru ar gyfer y dyfodol. Mae'r ddarpariaeth hon i'w gweld yng nghyfrifon statudol cyfunol Llywodraeth Cymru yn flynyddol.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys dwy brif elfen:

- darpariaeth i Gronfa Risg Cymru ddigolledu Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru yn y dyfodol ar gyfer hawliadau esgeulustod clinigol ac anafiadau personol sy'n fwy na'r tâl-dros-ben y cytunwyd arno (£25,000 ar hyn o bryd) a lle bernir ei bod yn debygol y bydd y dyfarniad o blaid yr hawlydd (tebygolrwydd o fwy na 50%);

- darpariaeth ar gyfer gorchmynion taliadau cyfnodol a ddyfernir i hawlwyr, a reolir gan Gronfa Risg Cymru ar ran Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau perthnasol GIG Cymru. (Mae gorchmynion taliadau cyfnodol yn drefniant lle mae hawliwr yn cytuno i dderbyn taliadau cyfnodol gan ddilyn amserlen y cytunir arni yn hytrach na fel cyfandaliad).

  Mae'r ddarpariaeth yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf fel a ganlyn:

| | **31 Mawrth 2013** | **31 Mawrth 2014** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Darpariaeth Cronfa Risg Cymru | £521m | £594m |
| Elfen Gorchmynion Taliadau Cyfnodol yr uchod | £183m | £214m |

Caiff y trosglwyddiad yn y ddarpariaeth hon ei hariannu yn flynyddol o'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Mae'r adnodd DEL Refeniw a ddefnyddiwyd ar gyfer setliadau hawliadau yn ystod y flwyddyn yn y tair blynedd ariannol diwethaf fel a ganlyn:

| | **2012-13** | **2013-14** | **Rhagolwg 2014-15** |
|---|---|---|---|
| Setliadau hawliadau Cronfa Risg Cymru | £60.8m | £69.1m | £75.0m |

**Sylw ar y tueddiad cyffredinol ar gyfer hawliadau**
Yn y blynyddoedd diweddar, ac yn gyffredin â gwledydd eraill, mae GIG Cymru wedi gweld twf yn nifer yr hawliadau cyfreithiol; er enghraifft yn 2013/14 gwelodd Awdurdod Ymgyfreitha y GIG yn Lloegr gynnydd o 17.9% mewn hawliadau esgeulustod clinigol o'i gymharu â 2012/13 a chynnydd yng nghyfanswm y ddarpariaeth hawliadau o 13.7% o'i gymharu â chynnydd o 14% yn narpariaeth Cronfa Risg Cymru. Gall gymryd nifer o flynyddoedd nes cytuno ar setliad llawn ar gyfer hawliadau unigol, a phrosesau cyfreithiol a'r llysoedd sy'n penderfynu ar amseru setliadau o'r fath.

Mae nifer o resymau am y cynnydd mewn hawliadau ac nid oes modd dweud ag unrhyw sicrwydd beth yw'r prif reswm dros y cynnydd. Bu cynnydd cyffredinol mewn hawliadau dros y blynyddoedd diwethaf, o ran nifer a gwerth fel ei gilydd. Bernir bod newidiadau diweddar i reolau cyllid ar gyfer hawliadau cyfreithiol a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013 wedi cael effaith ar gofrestru hawliadau cyn y dyddiad hwn, ac felly ar nifer yr achosion a gyflwynwyd wedi hynny yn 2013/14. Hefyd bernir bod cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r opsiynau ar gyfer unioni camweddau clinigol yn cyfrannu at nifer yr hawliadau.

Mae cost yr hawliadau hefyd wedi cynyddu, yn enwedig yn achos setliadau ar gyfer pecynnau gofal hirdymor. Y rheswm dros y cynnydd hwn yw bod anghenion gofal yn mynd yn fwy cymhleth ac mae angen sicrhau bod unrhyw becyn gofal yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth berthnasol fel Cyfarwyddebau Iechyd a Diogelwch ac Oriau Gwaith.

Mae GIG Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i ddysgu o hawliadau i leihau'r risg y bydd problemau'n codi eto. Cyn i Gronfa Risg Cymru allu digolledu, mae gofyn bod Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yn amlinellu'r prif wendidau a arweiniodd at yr hawliad, ac amlinellu'r camau sydd wedi'u cymryd i leihau'r risg y bydd problemau'n codi eto. Caiff hawliadau eu hadolygu'n fewnol gan Gronfa Risg Cymru i weld beth yw'r camau mwyaf effeithiol, ac yna fe'u hystyrir gan grŵp amlddisgyblaeth o swyddogion gweithredol Cymru gyfan, gyda chynrychiolwyr o blith cyfarwyddwyr meddygol, cyfarwyddwyr nyrsio, prif weithredwyr, cyfarwyddwyr cyllid, cadeiryddion

byrddau iechyd, cyfarwyddwyr llywodraethu a Llywodraeth Cymru. Os oes tystiolaeth o risgiau a allai fod yn berthnasol i gyrff eraill y GIG, neu dystiolaeth o arfer da, gellir gofyn am adolygiad manylach o'r hawliad.

Os oes materion sy'n amlwg yn berthnasol i Gymru gyfan yn codi o hawliadau, mae Cronfa Risg Cymru yn gwneud gwaith thematig. Mae hyn yn cynnwys asesiad clinigol o feysydd risg uchel, gan gynnwys mamolaeth, adrannau brys a'r llwybr llawfeddygol. Caiff canfyddiadau'r adolygiadau eu rhannu gyda byrddau iechyd unigol, gydag adroddiad cyfansawdd yn cael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru a'r Prif Weithredwyr.

## *Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg*

### 7. £10m ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol

*Pa fecanwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar waith i sicrhau bod cyfran briodol yn cael ei gwario ar blant*

Mae'r Llywodraeth wedi gweithio'n galed i ddod o hyd i adnoddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion yn y Gyllideb Ddrafft. Mae hyn yn golygu nad yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu'r gostyngiad o 4.5% ar gyfartaledd yr oeddem yn ei ofni yn gynharach eleni.

Mae £10 miliwn wedi cael ei ychwanegu at y setliad i gydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol lleol cryf o ran llwyddiant y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn yr hirdymor. Byddwn yn parhau i amddiffyn cyllid ysgolion yn unol â'n hymrwymiad i gynyddu adnoddau gan 1% uwchlaw'r newid cyffredinol yng Nghyllideb Cymru.

Mae'r setliad llywodraeth leol heb ei neilltuo er mwyn cynnig hyblygrwydd i awdurdodau benderfynu ar flaenoriaethau gwariant lleol. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw pennu blaenoriaethau eu cyllideb a sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Mae hyn yn cynnwys diogelu plant a darparu gwasanaethau ar eu cyfer, a'r ddyletswydd gyfreithiol i ystyried hawliau'r plentyn wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.

### 8. Trosglwyddo £4.6m ar gyfer y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd i'r Grant Cynnal Refeniw

*Pa gamau diogelu sydd wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud buddsoddiad parhaus yn y rhaglen newydd hon dros gyfnod o amser.*

Llywodraeth leol sy'n ariannu ac yn darparu'r mwyafrif helaeth o wasanaethau cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi costau datblygu a chychwyn gan fwyaf yn y meysydd hyn. Rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlyniadau a gyflawnir ar draws gwasanaethau cymdeithasol, ond byddwn yn olrhain gweithgarwch a gwariant yn y meysydd hyn drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol statudol.

Yn achos Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, ceir rheoliadau yn pennu'r gofynion i awdurdodau lleol a'u partneriaid ddarparu a chyflwyno'r gwasanaethau hyn. Mae hyn yn gynnwys y gofyniad am Fwrdd Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, sy'n derbyn ac yn adolygu adroddiadau monitro chwarterol gan y Tîm Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth am weithgarwch a chanlyniadau, gweithlu a chyllid (incwm a gwariant). Mae'n rhaid i'r Bwrdd hysbysu'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol am unrhyw

faterion ariannol neu faterion adnoddau eraill sy'n debygol o effeithio ar ei allu i gyflawni ei swyddogaethau.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Bwrdd gyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru. Defnyddir hyn i sicrhau bod Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cael eu darparu yn unol â'r gofynion yn y rheoliadau a'r canllawiau statudol.

**9. £3m ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol:**
*Pa fecanwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar waith i sicrhau bod cyfran briodol yn cael ei gwario ar y ddeddfwriaeth fel y mae'n effeithio ar blant a phobl ifanc.*


Mae ein cymorth ariannol i gefnogi gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) heb ei neilltuo ar grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaethau, ond mae'n helpu awdurdodau lleol a sefydliadau partner i baratoi a chyflwyno'u cynlluniau gweithredu rhanbarthol eu hunain. ‘Deddf y bobl’ i’r rheini o bob oedran yw hon, ac mae’n hynny’n beth bwriadol iawn. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ddatblygu asesiadau o anghenion y boblogaeth, gan gynnwys anghenion plant, a fydd yn cael eu defnyddio i lywio a blaenoriaethu eu gwasanaethau.

**10. Trefniadau ariannu ar gyfer byrddau iechyd lleol:**
*O gofio bod trefniadau ariannu yn ôl disgresiwn y Bwrdd Iechyd Lleol ac nad oes oedran neilltuo cysylltiedig: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn asesu effaith penderfyniadau gwariant y BILl ar iechyd a lles plant; Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith bosibl ar iechyd plant sy'n codi o Adolygiad Adnoddau'r Bwrdd Iechyd Lleol.*

Mae Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am ddarparu gofal iechyd i'w poblogaethau, a chyfrifoldeb byrddau iechyd yw penderfynu ar y defnydd gorau o'r cyllid hwn ym mhob maes, dan arweiniad asesiad o anghenion iechyd a llesiant eu poblogaethau lleol. Mae ystod o bolisïau cenedlaethol yn bodoli sy'n canolbwyntio ar yr angen am fuddsoddiad effeithiol mewn gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o fecanweithiau ar waith i fonitro ac adolygu perfformiad y GIG yn erbyn y cynlluniau gwasanaethau, a chaiff effaith penderfyniadau gwariant ar y polisïau sy'n gysylltiedig ag anghenion gofal iechyd plant a phobl ifanc ei hadolygu drwy'r broses hon.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod sylfaen y dyraniad adnoddau refeniw yn cael ei diweddaru i gynnwys effaith y setiau data diweddaraf a fydd, er enghraifft, yn cynnwys proffil oedran y boblogaeth.



**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services